Diben y canllaw hwn yw cynorthwyo Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol i gynnal a chwblhau asesiadau risg a chyfrifoldebau cysylltiedig yn unol â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Diwygio) 2006 a dogfen ganllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch (HSG 65).

**Cyflwyniad**

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal i ddiogelu eu gweithwyr ac eraill dan Adran 2 a 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Fel ffordd o ymarfer y ddyletswydd gofal hon mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Diwygio) 2006 a dogfen ganllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch HSG65 Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch, yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiadau risg priodol a digonol yn cael eu cwblhau a'u cyfathrebu'n briodol.

Mae asesiad risg yn galluogi i risg gael ei reoli, gan dynnu sylw at niwed y gellid ei achosi ac asesu'n ddigonol a oes camau neu fesurau rheoli rhesymol ar waith. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda nodi risgiau ychwanegol y gellid bod wedi'u hesgeuluso'n flaenorol.

Nid cynhyrchu gwaith papur helaeth yw diben asesiadau risg. Yn hytrach maent yn ymarfer pwysig i sicrhau diogelwch gweithwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith. Dylent olygu bod gweithgaredd yn cael ei reoli 'fel y bo'n rhesymol ymarferol' i leihau risgiau'r peryglon a nodir i fod 'mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol'.

**Unigolion Cymwys**

Argymhellir y dylai asesiadau risg yn gyffredinol mewn Cyfadrannau neu Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol gael eu cynnal ar lefel y Gyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol. Dylai asesiadau penodol gael eu cynnal gan yr unigolion sy'n gyfrifol am y meysydd gwaith y mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd ynddynt gan ei bod yn debygol mai nhw fydd â'r wybodaeth orau am y gweithgaredd a gynhelir.

Dylai pob asesiad risg gael ei gynnal gan unigolyn/unigolion cymwys. Yn y cyd-destun hwn, unigolyn cymwys yw rhywun sydd yn gwybod a/neu yn deall:

- Y gwaith dan sylw drwy brofiad personol neu dechnegol;
- Egwyddorion asesu risg a dulliau o atal neu leihau risgiau;
- Pwnc penodol yr asesiad, neu fod wedi cwblhau hyfforddiant priodol.

Gall unigolion cymwys hefyd ddymuno ymgynghori a chynnwys cydweithwyr eraill sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a gaiff eu hasesu o ddydd i ddydd yn ystod y broses asesu risg, yn unol ag ymarfer gorau cydnabyddedig. Dylid cyfleu a rhannu canfyddiadau pob asesiad risg, ac yn enwedig fanylion penodol am fesurau rheoli addas a digonol a nodir gan yr asesiad risg, gyda'r holl bobl yr effeithir arnynt.

**Hyfforddiant Asesu Risg**

Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn cynnig cwrs hyfforddi asesu risg, sy'n galluogi cynrychiolwyr i ddeall:

- Sut i gynnal asesiad risg addas a digonol;

- Y dyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â chynnal asesiad risg;
- Ystyriaethau ar bob cam o'r broses asesu risg;
- Sut i sgorio risgiau yn ôl eu tebygolrwydd a'u difrifoldeb i sicrhau bod mesurau rheoli addas yn cael eu rhoi ar waith.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cwrs hyfforddi asesu risg yma: https://www.aber.ac.uk/en/hse/training/risk-training/.

**Pryd i gynnal Asesiad Risg**

Rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer unrhyw weithgaredd neu grŵp o weithgareddau lle ceir potensial i achosi niwed, naill ai'n gorfforol, yn feddyliol neu'n ariannol, waeth pa mor ddifrifol. Dylid cynnal asesiad risg cyn dechrau unrhyw waith neu weithgareddau sydd â'r potensial i beri risg o anaf neu afiechyd.

Dim ond pan fydd cwmpas cychwynnol y gweithgaredd yn dangos bod gan y peryglon a nodir y potensial i beri risg sylweddol a/neu os yw'n aneglur bod y rheolyddion sy'n bodoli neu a gynllunnir yn ddigonol mewn egwyddor ac yn ymarferol y bydd angen cynnal asesiad risg. Efallai na fydd angen asesiad risg os yw'n glir o adolygiad rhagarweiniol bod y risgiau'n rhai mân neu fod asesiad blaenorol wedi profi bod y rheolyddion sy'n bodoli neu a gynllunnir:

- yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu safonau sefydledig;
- yn briodol i'r gweithgaredd;
- yn ddealledig, neu y byddant yn ddealledig, ac yn cael eu gweithredu gan bawb sy'n ymwneud â'r gweithgaredd.

Er na fydd asesiad risg yn cael ei ystyried yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau, dylid parhau i gyflwyno mesurau rheoli priodol.

Mae gofynion statudol hefyd yn bodoli sy'n galw am gwblhau asesiadau risg penodol ar wahân i asesiad risg safonol. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. Asbestos
ii. Ymbelydredd Ïoneiddio
iii. Plwm
iv. Sŵn
v. Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (CoSHH)
vi. Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE)
vii. Codi a Chario
viii. Offer Diogelu Personol (PPE)
ix. Organebau wedi'u Haddasu'n Enynnol (GMO)
x. Gweithio mewn Mannau Cyfyngedig

Mewn rhai achosion, gellir cyfuno'r peryglon penodol hyn mewn un asesiad risg (e.e. codi a chario a PPE), ond efallai na fydd hynny'n briodol mewn rhai amgylchiadau (e.e. codi a chario ac ymbelydredd ïoneiddio).

**Egwyddorion Asesu Risg**

Mae asesiadau risg yn cynorthwyo gyda dadansoddi a deall proffil risg gweithgaredd. Dylai asesiadau risg gynnwys:

- Natur a lefel y risgiau a'r peryglon a nodir;
- Y tebygolrwydd y bydd effeithiau niweidiol yn digwydd a'u difrifoldeb posibl;
- Costau'n gysylltiedig â phob math o risg;
- Effeithiolrwydd y mesurau rheoli sydd ar waith i reoli'r risg.

Dylid cynnal pob asesiad risg yn unol ag egwyddorion Hierarchaeth Rheoli Peryglon:

i. Dileu – Ailgynllunio'r dasg neu ddefnyddio sylweddau penodol i ddileu'r perygl e.e. osgoi gweithio ar uchder.
ii. Newid – Newid y deunydd neu'r broses i leihau'r perygl e.e. defnyddio llwyfan gwaith codi symudol yn lle ysgol ar gyfer gweithio ar uchder.
iii. Ynysu – Defnyddio rheolyddion peirianneg i atal y perygl e.e. gosod awyru disbyddu lleol neu warchodydd peiriant i wahanu'r perygl oddi wrth y defnyddiwr.
iv. Rheolyddion – Defnyddio rheolyddion gweinyddol i leihau'r perygl e.e. lleihau'r amser amlygu a darparu hyfforddiant.
v. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) – Dim ond ar ôl i'r uchod i gyd gael eu profi'n aneffeithiol i reoli risgiau 'fel y bo'n rhesymol ymarferol' i fod 'mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol', y bydd rhaid darparu PPE e.e. gorchuddion wyneb a harnais.
vi. Disgyblaeth - Nid mesur terfynol yw hwn; dylid ei weithredu ar bob cam o'r hierarchaeth rheoli ac mae'n cynnwys cyfathrebu effeithiol a sicrwydd bod yr holl brosesau yn cael eu dilyn a'u cadw.

**Templed Asesu Risg**

Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd wedi datblygu templed asesu risg y dylid ei ddefnyddio ar gyfer holl weithgareddau priodol y Brifysgol. Mae'r templed yn darparu fframwaith sy'n cyd-fynd ag ymarfer gorau a safonau cydnabyddedig.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag asesu risgiau, gan gynnwys Templed Asesu Risg y Brifysgol (F003) yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/.

**Cwblhau'r Templed Asesu Risg**

a) Y Gweithgaredd

Gellir diffinio'r gweithgaredd sydd i'w asesu yn ôl y swyddogaethau penodol a gyflawnir gan Gyfadran neu Adran (e.e. proses neu weithrediad yn defnyddio eitem, peiriant neu gyfarpar); gwaith a wneir mewn ardal a ddiffinnir; neu waith a gyflawnir gan unigolion neu grwpiau o bobl (e.e. staff cynnal a chadw).

b) Peryglon

Gellir adnabod y rhain drwy ddadansoddi'r amrywiol dasgau y mae cydweithwyr yn eu cyflawni: drwy archwilio'r gweithle; siarad gyda staff a gweithredwyr; ymgynghori â'r taflenni data diogelwch deunyddiau neu gyfeirlyfrau; asesu gweithdrefnau cyfredol; neu ddadansoddi ffurflenni adroddiadau ar ddigwyddiadau. Yn yr

adran hon, rhestrwch yr asiantau, sylweddau, cyfarpar, peiriannau ac offer peryglus neu'r prosesau eu hunain (e.e. gweithio ar uchder) sy'n gymwys i'r gweithgaredd dan sylw.

c) Unigolion mewn Perygl

Dylai'r adran hon nodi'r unigolion a allai gael eu hamlygu i'r peryglon. Does dim angen enwi unigolion, ond mae angen nodi swydd neu grŵp unigolion (e.e. 'gweithredwr' neu 'gwyliedydd'). Gallai fod yn bwysig nodi'n benodol:

i. Cyflyrau meddygol sy'n achosi perygl ychwanegol;
ii. Alergeddau sy'n bygwth bywyd;
iii. Pobl ifanc.

Dylai'r adran hon gynnwys pob grŵp neu fath o unigolion a allai gael eu niweidio gan y peryglon a nodir a gall amrywio rhwng gwahanol beryglon yn ymwneud â'r un gweithgaredd.

d) Categoreiddio'r Risg

Mae categoreiddio risg yn ymwneud â chanlyniadau'r peryglon a nodir sy'n achosi niwed. Caiff hyn ei asesu'n gyffredinol drwy ystyried y matrics risg canlynol, sy'n cyd-fynd â Thempled Asesu Risg y Brifysgol:

| **Risk matrix** – *use this to determine risk for each hazard i.e. 'how bad and how likely'* | **Likelihood of Harm** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Severity of Harm** | **Very Unlikely (1)** | **Unlikely (2)** | **Fairly Likely (3)** | **Likely (4)** | **Very Likely (5)** |
| **Negligible (1)** e.g. *small bruise* | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| **Slight (2)** *e.g. small cut, deep bruise* | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| **Moderate (3)** *e.g. deep cut, torn muscle* | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| **Severe (4)** *e.g. fracture, loss of consciousness* | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| **Very Severe (5)** *e.g. death, permanent disability* | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |

Dylid defnyddio tebygolrwydd y niwed a'i ddifrifoldeb pe bai'r niwed yn digwydd i gynhyrchu ffactor risg cyffredinol y perygl. Gall y tebygolrwydd y bydd y perygl yn digwydd neu'r risg yn cael ei wireddu ymwneud â ffactorau fel profiad y gweithredwr, dibynadwyedd cyfarpar a/neu amgylchiadau amgylcheddol.

Ar gyfer yr adran ffactor risg, dylid asesu'r risg i ddechrau fel pe na bai unrhyw fesurau rheoli ar waith yn gyfredol a bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni heb nodi unrhyw fesurau rheoli.

e) Mesurau Rheoli

Dylai'r adran hon nodi'r mesurau rheoli i'w rhoi ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r peryglon a nodwyd. Dylid cynnwys yr holl fesurau rheoli cyfredol ac a gynllunnir i leihau risg y peryglon a nodwyd. Dylai cydweithwyr ddilyn egwyddorion Rheoli Hierarchaeth Peryglon wrth nodi mesurau rheoli priodol.

f) Gwerthuso'r Risg Gweddilliol

Ar ôl nodi mesurau rheoli, dylid ail-werthuso'r risg gweddilliol gan ddefnyddio'r un matrics risg. Dylid cyfrifo hwn yn yr un ffordd ag yn flaenorol, ond y tro hwn dylid ystyried y mesurau rheoli a nodwyd. Yn ystod y broses

hon, dylid ystyried effaith y trefniadau cyfredol, systemau gwaith diogel, gweithdrefnau a chyfarwyddiadau cymeradwy ar debygolrwydd a difrifoldeb y risg.

Dylai cydweithwyr bennu a yw'r trefniadau, gweithdrefnau a rheolau cyfredol (gan gynnwys unrhyw fesurau rheoli ychwanegol a nodwyd) yn briodol yng nghyd-destun y peryglon a'r risgiau. Os yw'r asesiad yn casglu bod y rhagofalon presennol neu arfaethedig yn annigonol neu os ystyrir bod y risg gweddilliol yn rhy uchel i ganiatáu dechrau'r dasg neu weithgaredd, byddai angen datblygu rhagofalon ychwanegol neu amgen. Oherwydd y gallai hyn olygu bod angen newid proses, dylid adolygu'r asesiad risg gwreiddiol, ar sail y newidiadau angenrheidiol hyn.

**Cwblhau a Chyfathrebu Asesiadau Risg**

Gallai fod yn fuddiol i gynhyrchu'r asesiad risg gyda'r defnyddiwr/defnyddwyr a fyddai'n ymgymryd â'r gweithgaredd fel arfer er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r asesiad, ynghyd â bod yn ffordd effeithiol o gyfathrebu'r canlyniadau. Rhaid llofnodi a dyddio'r asesiadau fel arwydd o ddogfen gymeradwy.

Mae cyfathrebu canlyniadau'r asesiad risg yn effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â'r mesurau rheoli a nodwyd i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses neu weithgaredd, yn hanfodol. Rhaid cadw asesiadau risg mewn lleoliad priodol ar system leol er mwyn i'r holl bobl angenrheidiol allu cyrchu'r ddogfen ddiweddaraf yn rhwydd. Hefyd dylid archifo fersiynau cynharach o asesiadau risg ar system leol.

Disgwylir i bobl yr effeithir arnynt gydymffurfio a chadw at y mesurau rheoli a nodwyd a'u cyfathrebu yn ystod y broses asesu risg.

**Adolygu Asesiadau Risg**

Dylid adolygu pob asesiad risg yn rheolaidd. Dylid adolygu pob asesiad risg o leiaf yn flynyddol, ond gallai rhai sefyllfaoedd ysgogi amserlenni adolygu brys neu fwy rheolaidd. Bydd y mathau o sefyllfaoedd a allai ysgogi adolygiad mwy rheolaidd o asesiadau yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Yn dilyn digwyddiad neu ddamwain agos yn cynnwys neu'n ymwneud â'r gweithgaredd;
- Yn dilyn cyflwyno unrhyw gyfarpar, sylweddau a/neu weithdrefnau newydd sy'n cyflwyno peryglon newydd neu wahanol i'r gweithle;
- Newidiadau mewn deddfwriaeth berthnasol, ymarfer gorau'r diwydiant, personél a/neu'r amgylchedd gwaith.

Yn ôl Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol rhaid i asesiadau risg gael eu hadolygu ar adegau rheolaidd a phriodol i sicrhau bod y peryglon a nodwyd yn parhau'n gyfredol a bod y mesurau rheoli'n parhau'n addas ac yn ddigonol.

Dylid cofnodi dyddiad yr adolygiad diweddaraf a manylion yr asesydd ar y ddogfen asesu risg yn dilyn pob adolygiad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Diwygio) 2006: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/438/note/made

- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch HSG65 Rheoli Iechyd a Diogelwch: https://www.hse.eov.uk/pubns/priced/hsg65.pdf
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Asesiad risg: Canllaw cryno i reoli risgiau yn y gweithle: https://www.hse.eov.uk/pubns/indg163.pdf
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Rheoli risgiau ac asesu risg yn y gweithle: https://www.hse.eov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm
- Tudalen Gwe Asesu Risg Prifysgol Aberystwyth: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/